Prif ddyletswyddau'r Comisiynydd Safonau yw ymchwilio i gwynion am ymddygiad Aelodau'r Cynulliad, rhoi gwybod i'r Cynulliad am ei ymchwiliadau a chynghori Aelodau'r Cynulliad a'r cyhoedd am y weithdrefn ar gyfer delio â chwynion.



Gerard Elias
Y Comisiynydd Safonau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Pierhead
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8263
Ffacs: 029 2089 8117
E-bost: Comisiynydd.Safonau@cymru.gov.uk

## Cyflwyniad

1. Yn ystod fy mlwyddyn gyntaf fel Comisiynydd Safonau, mae'n bleser gennyf adrodd na fu unrhyw gwynion yn erbyn Aelodau'r Cynulliad a oedd yn cyfiawnhau cael eu cyfeirio at y Pwyllgor. Credaf fod hyn yn dangos bod y diwylliant o safonau uchel wedi bwrw gwreiddiau yng Nghymru a bod gwerth system dryloyw o graffu ar safonau, sy'n deg, yn gadarn ac yn gymesur, yn dwyn ffrwyth.

2. Er nad oedd, felly, gwynion derbyniadwy a symudodd i ymchwiliad ail gam, roedd y cwynion eu hunain yn amrywiol. Y grŵp mwyaf o gwynion annerbyniol o lawer oedd y rhai a oedd yn amau "perfformiad" Aelod Cynulliad. Enghraifft o hyn yw'r rhai a oedd yn cyfeirio at honiad o fethu ag ymateb yn ddigonol neu fethu ag ymateb o gwbl i etholwr.

3. Heb geisio awgrymu na allai perfformiad fyth fod yn fater sy'n ymwneud â safonau, rwyf yn sicr bod perfformiad Aelod Cynulliad, ar y cyfan, yn rhywbeth i'w ystyried yn y blwch pleidleisio yn y pen draw. Mae risg gwirioneddol y byddai Comisiynydd yn camu i faes democratiaeth pe bai'n ymyrryd yn y mater hwn, ac ni ddylwn wneud hyn.

4. Fodd bynnag, fel gyda phob cwyn annerbyniadwy, nid wyf yn mynd ati i'w diystyru'n ddifeddwl. Byddaf bron bob amser yn ceisio gwella sefyllfa'r achwynwr. Weithiau, byddaf yn dewis cwrdd ag achwynwr i esbonio pam na allaf fynd â'r mater ymhellach. Weithiau, bydd y gŵyn yn agor y drws i gŵyn ehangach ac, er y buaswn efallai yn ei hystyried yn annerbyniadwy, gallaf gyfeirio'r achwynwr i rywle arall a allai ei fodloni neu, o leiaf werthfawrogi bod y mater wedi cael ei ystyried yn iawn.

5. Nid oes gennyf unrhyw amheuaeth bod hyn oll yn cynorthwyo'r prif nod o barhau i wella enw da'r Cynulliad Cenedlaethol a'i Aelodau.

6. Fel y dywedais y llynedd, mae fy rôl hefyd yn cynnwys sicrhau bod gan y cyhoedd fynediad at weithdrefn gwynion sy'n dwyn i gyfrif pan fo angen ac sy'n ymdrin â materion mewn ffordd effeithlon sy'n hawdd i'r achwynwr ei dilyn. Yn hyn o beth, a rhywbeth sy'n dod yn weithredol wrth i mi ysgrifennu, ceir gweithdrefn newydd o ymdrin â chwynion yn erbyn Aelodau'r Cynulliad, sy'n cynnig system symlach ond sy'n parhau i gydbwyso hawliau Aelodau yn briodol yn erbyn disgwyliad y cyhoedd y bydd ymchwiliad cadarn yn dilyn unrhyw honiad difrifol. Ceir rhagor o fanylion isod.

# Cwynion

## Rhwng 1 Ebrill 2011 a 31 Mawrth 2012


9. Rhwng 1 Ebrill 2011 a 31 Mawrth 2012, cafwyd 20 o gwynion. Roedd saith o gwynion hefyd wedi'u dwyn ymlaen o 2010-11. Barnwyd bod 25 o'r cwynion yn annerbyniadwy, gan gynnwys un a gafodd ei thynnu yn ôl gan yr achwynwr. Byddaf yn adrodd ar y ddwy gŵyn a gafodd eu dwyn ymlaen yn fy adroddiad blynyddol y flwyddyn nesaf.

10. Mae Tabl 1 yn dangos y cwynion a gafwyd rhwng mis Ebrill 2011 a mis Mawrth 2012.

**Tabl 1 Cwynion a gafwyd (Ebrill 2011-Mawrth 2012)**

| Cwynion a gafodd eu dwyn ymlaen o 2010-11 | Cwynion a gafwyd | Cwynion derbyniadwy | Cwynion annerbyniadwy | Cwynion a gafodd eu dwyn ymlaen i 2012-13 |
|---|---|---|---|---|
| 7 | 20 | 0 | 25 | 2 |

11. Mae'r diagram isod yn rhoi dadansoddiad o'r categorïau sy'n gysylltiedig â chwynion derbyniadwy.



**Tabl 2 Gwariant (Ebrill 2011 - Mawrth 2012)**

| Mis | Oriau a weithiwyd | Cyfanswm costau'r oriau a weithiwyd | Tâl cadw blynyddol | Cyfanswm tâl bob mis | Cyfraniad Yswiriant Gwladol | Teithio a chynhaliaeth | Cyfanswm costau bob mis |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | £ | £ | £ | £ | £ | £ |
| Ebr 11 | 17.5 | 840 | 425 | 1,265 | 93 | 0 | 1,358 |
| Mai 11 | 11.5 | 552 | 425 | 977 | 53 | 0 | 1,030 |
| Meh 11 | 9.5 | 456 | 425 | 881 | 40 | 0 | 921 |
| Gorff 11 | 10.5 | 504 | 425 | 929 | 47 | 0 | 976 |
| Awst 11 | 20 | 960 | 425 | 1,385 | 110 | 0 | 1,495 |
| Medi 11 | 25.5 | 1224 | 425 | 1,649 | 146 | 0 | 1,795 |
| Hyd 11 | 30.5 | 1464 | 425 | 1,889 | 179 | 0 | 2,068 |
| Tach 11 | 23.75 | 1140 | 425 | 1,565 | 135 | 0 | 1,700 |
| Rhag 11 | 28.5 | 1368 | 425 | 1,793 | 166 | 0 | 1,959 |
| Ion 12 | 24.5 | 1176 | 425 | 1,601 | 140 | 0 | 1,741 |
| Chwef 12 | 15 | 720 | 425 | 1,145 | 77 | 0 | 1,222 |
| Maw 12 | 20 | 960 | 425 | 1,385 | 110 | 392 | 1,886 |
| Cyfanswm | 236.75 | 11,364 | 5,100 | 16,464 | 1,296 | 392 | 18,152 |

15. Mae fy swyddfa'n cael cymorth gweinydol a chyflenwol cyfrinachol gan staff Comisiwn y Cynulliad, fel rhan o ddyletswyddau dau aelod o staff. Caiff yr holl amser a gaiff ei dreulio yn darparu cymorth i'm swydd ei gofnodi ar wahân. Mae Tabl 3 yn dangos costau'r cymorth hwn.

**Tabl 3 Cymorth a ddarparwyd gan staff (Ebrill 2011 - Mawrth 2012)**

| Mis | Oriau amser y staff | Cyfanswm costau'r oriau a weithiwyd[1] | Teithio a chynhaliaeth |
|---|---|---|---|
| | | £ | £ |
| Ebr 11 | 3.25 | 63 | 0 |
| Mai 11 | 5 | 106 | 0 |
| Meh 11 | 4.5 | 87 | 0 |
| Gorff 11 | 7 | 135 | 0 |
| Awst 11 | 12 | 238 | 0 |
| Medi 11 | 9.5 | 184 | 0 |
| Hyd 11 | 21 | 416 | 0 |
| Tach 11 | 18.25 | 366 | 0 |
| Rhag 11 | 9.75 | 207 | 0 |
| Ion 12 | 5.5 | 157 | 0 |
| Chwef 12 | 7 | 199 | 0 |
| Maw 12 | 5.5 | 156 | 0 |
| **Cyfanswm y costau** | 108.75 | 2,314 | 0 |

[1] *Cynhwysir argostau staff.*

16. Cyfanswm y gwaraint ar swydd y Comisiynydd Safonau yn 2011-12, ac eithrio costau cymorth staff, oedd £18,152. Y cyfanswm, gan gynnwys costau staff cymorth oedd £20,466.

17. Fel y dengys Tabl 4, mae'r gwariant gan swyddfa'r Comisiynydd Safonau ar gyfer 2011-12 yn dangos gostyngiad o'r hyn a oedd yn y flwyddyn flaenorol, er y dylid nodi bod rhan o gostau'r staff ar gyfer 2010-11 yn seiliedig ar amcangyfrif o'r amser yn hytrach na'r amser a gofnodwyd.

**Tabl 4 Gwariant blynyddol**

| | **Gwariant (2010-11)** | **Gwariant (2011-12)** |
|---|---|---|
| | **£** | **£** |
| Ac eithrio costau staff | 24,738 | 18,152 |
| Gan gynnwys costau staff | 25,818 | 20,466 |


## Y Pwyllgor Safonau

18. Rwy'n ddiolchgar iawn i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad, ac yn arbennig i Mick Antoniw AC, Cadeirydd y Pwyllgor ac i Lara Date, y Clerc, am y cymorth gwirioneddol a roddwyd i mi ac yn arbennig am sicrhau, pan fo angen brys, y gall y Pwyllgor ymateb yn hyblyg a'i fod yn barod i wneud hynny.

## Amrywiol

19. Er gwaetha'r newid mewn personel, rwy'n ddiolchgar i'r Comisiwn am sicrhau bod y swyddfa a'r trefniadau gweinyddol sydd eu hangen i gyflawni fy swyddogaethau wedi cael eu darparu gydag arbenigedd ac effeithlonrwydd a bod hyn wedi parhau i sicrhau bod Swyddfa'r Comisiynydd yn gallu ymateb yn amserol ac yn gyfeillgar i achwynwyr ac Aelodau'r Cynulliad fel ei gilydd.

20. Mae Jonathan Thomas yn darparu cymorth gweinyddol yn rhan amser ac mae wedi gweithredu gyda synnwyr cyffredin a chymorth cynhwysfawr i mi ers mis Ionawr a hoffwn nodi fy niolch diffuant iddo am hynny a'i waith ar yr Adroddiad hwn.



**Gerard Elias, Y Comisiynydd Safonau, Mehefin 2012**

